Hyper-local shopping during lockdown

Lisa Denison

It's been amazing how quickly a new way to shop has sprung up in our small village of Llansadwrn. Not long after lockdown began, several local businesses changed how they operated and made it possible for people to buy direct from them.

Mandy, who runs **'The Dragon's Garden'** Fair Trade shop and bookshop in Llandeilo had to close as her partner is shielded. Local people could order online and collect shopping from outside her house or it was delivered by local volunteers. She's gone above and beyond trying to source what people want, especially things like bread flour and yeast.

Gardd Sadwrn are a small-scale organic grower who realized they might need to start their organic veg box scheme early. They bought in organic produce from Watson and Pratt in Lampeter until the harvesting season got underway. As well as local collections, they have started delivering to towns and villages further afield, where there is demand.

Talley farmers and bakers, '**Cothi Valley'**, decided to have a pop-up stall every Sunday: their amazing pies, pastries, breads, milk and meat keep everyone well fed and the social distance queues run down the road. They have been joined by their neighbours **'Wild and Rare'** who specialise in venison and water buffalo meat and have delicious bacon sandwiches on offer while you wait. We all look forward to Sundays!

Laura runs the shop in **Llanwrda** and she has also gone out of her way to provide what people need - always letting them know when she's ordering. I believe beer and wine sales are going well…and the local pub, the **Sexton's Arms** has done what it can to fill that particular gap on a take-away basis. All within the guidelines of course.

These last few months have made us all appreciate how vital these local traders are and I hope we all continue to support them after lockdown – they've kept us all fed, helped us stay safe and gone way above what any supermarket could do. We feel very lucky indeed.

Siopa lleol iawn yn ystod y gwarche

Lisa Denison

Siopa lleol iawn yn ystod y gwarchae

Mae'n rhyfeddol pa mor gyflym y mae ffordd newydd o siopa wedi ymddangos yn ein pentref bach ni, Llansadwrn. Yn fuan wedi i'r gwarchae gychwyn, newidiodd sawl busnes lleol y ffordd roeddent yn gweithio a'i gwneud yn bosib i bobl brynu oddi wrthynt yn uniongyrchol.

Roedd rhaid i Mandy, sy'n rhedeg siop Masnach Deg a siop lyfrau "**Gardd y Ddraig**" yn Llandeilo, gau gan fod ei phartner yn cael ei warchod. Gallai pobl leol archebu ar-lein a chasglu eu siopa o'r tu allan i'w chartref neu byddai'n cael ei ddosbarthu gan wirfoddolwyr lleol. Mae hi wedi mynd y filltir ychwanegol dro ar ôl tro wrth geisio dod o hyd i bethau mae pobl eu heisiau, yn enwedig pethau fel blawd gwneud bara a burum.

Mae **Gardd Sadwrn** yn dyfwyr organig bychan a sylweddolodd efallai y byddai'n rhaid iddynt gychwyn eu cynllun blychau llysiau organig yn gynnar. Roeddent yn prynu cynnyrch organig gan Watson and Pratt yn Llanbed nes i'r tymor cynaeafu gychwyn. Yn ogystal â chasgliadau lleol, maen nhw wedi dechrau dosbarthu i drefi a phentrefi ymhellach i ffwrdd os oes galw am hynny.

Penderfynodd y ffermwyr a phobwyr o Dalyllychau, "**Cothi Valley**", gael stondin undydd bob dydd Sul, ac mae eu pasteiod, cacennau, bara, llaeth a chig anhygoel yn digoni tipyn o bawb ac mae'r ciwiau pellter cymdeithasol yn nadreddu i lawr y ffordd. Erbyn hyn mae ganddynt gwmni eu cymdogion "**Wild and Rare**", sy'n arbenigo ar gig carw a byfflo dŵr ac sy'n gwerthu brechdanau cig moch hyfryd iawn wrth ichi aros. Mae pawb yn edrych ymlaen at ddydd Sul!

Mae Laura'n rhedeg y siop yn **Llanwrda** ac aeth allan o'i ffordd i ddarparu beth mae pobl ei angen – ac mae bob tro'n rhoi gwybod iddynt pan mae'n archebu. Rwyf yn credu fod cwrw a gwin yn gwerthu'n dda - ac mae'r dafarn leol, y **Sexton's Arms**, wedi gwneud beth all i lenwi'r bwlch arbennig yna trwy werthu nwyddau i'w cario allan. Y cyfan o fewn y canllawiau wrth reswm.

Mae'r misoedd diwethaf hyn wedi gwneud inni gyd werthfawrogi pa mor allweddol yw'r masnachwyr lleol hyn, ac rwy'n gobeithio y byddwn oll yn dal ati i'w cefnogi ar ôl y gwarchae - maen nhw wedi bwydo pob un ohonom, ein helpu i aros yn ddiogel ac wedi gwneud llawer mwy na allai unrhyw archfarchnad. Rydym yn teimlo'n ffodus iawn yn wir.